PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

Canllaw Byr: Nodyn atgoffa i ysgolion – Beth allwch chi ei wneud i barhau i helpu disgyblion o deuluoedd incwm isel a theuluoedd dan anfantais yn ystod cyfnod cau ysgolion a COVID 19



# Pris Tlodi Disgyblion

## DEFNYDDIO DULL YSGOL GYFAN I WELLA LLES PLANT O DEULEUODD INCWM ISEL A THEULEUODD DIFREINTIEDIG

- Deall Tlodi 1
- Gwisg Ysgol a Dillad 2
- Bwyd a Newyn 3
- Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol 4
- Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5

I gael rhagor o wybodaeth am y prif ganllawiau a'r prosiect, cysylltwch â: kate.thomas@childreninwales.org.uk neu ewch i: https://bit.ly/2xQ0NOX

# PRIS TLODI DISGYBLION

**Ffocws ar:**

**Bwyd a Newyn** 3

**Prydau Ysgol am Ddim (FSM) | Mynediad - PDG | Banciau Bwyd**

**Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol** 5

**Adnoddau ac Offer | Ymgysylltiad Rhieni**

***Y prif ganllawiau:***

*Mae'r canllawiau Pris Tlodi Disgyblion ar gyfer ysgolion yng Nghymru, a gafodd eu datblygu'n ddiweddar a'u llunio yng Nghymru, yn cynyddu ymwybyddiaeth o dlodi disgyblion, yn disgrifio'r effaith mae tlodi'n ei chael ar fywydau plant o ddydd i ddydd yn yr ysgol ac yn cynnig atebion gwirioneddol a chost-effeithiol sy'n gallu cyfrannu at wella llesiant dysgwyr.*

Buom yn gofyn i ysgolion ystyried y canllawiau ac yn eu cynghori ar sut mae rhoi cynllun gweithredu ar waith er mwyn creu profiad tecach i'w disgyblion. Yn y cyfnod anodd hwn tra bydd yr ysgolion ar gau, rydyn ni'n deall y bydd hi'n anodd hyrwyddo'r canllawiau hyn a'u datblygu.

Mae'n hollol amlwg y bydd mwy o angen eto i ni gymryd themâu'r canllawiau hyn i ystyriaeth pan fydd y pandemig wedi cilio, gan ei fod yn debygol y bydd mwy o ddisgyblion nag o'r blaen mewn tlodi, ac rydyn ni'n annog ysgolion i ystyried sut gellir rhoi'r canllawiau hyn ar waith yn y dyfodol.

Nawr, fodd bynnag, mae cyfrifoldeb o hyd i flaenoriaethu llesiant disgyblion a sicrhau na fydd y bwlch cyrhaeddiad i'r rhai sydd mewn tlodi yn cynyddu yn ystod y cyfnod digynsail ac ansicr hwn.

**Gyda golwg ar hynny ac yn unol â'r canllawiau pris tlodi plant:**

**Gofynnwn i chi roi ystyriaeth arbennig i'r meysydd allweddol canlynol o'r canllaw (gweler uchod). Lle mae hynny'n bosib, rydyn ni wedi awgrymu rhai atebion a darparu gwybodaeth a allai helpu i sicrhau na fydd y disgyblion hynny sydd mewn tlodi yn cael eu gadael ar ôl yn ystod yr wythnosau nesaf a'r misoedd sydd i ddod.**

***Mae'r canllawiau llawn i'w gweld ar wefan Hwb Addysg Llywodraeth Cymru - https://bit.ly/2uZCZ9w***

**Mae gan bob plentyn hawl i gael bwyd maethlon digonol a dŵr glân (Erthygl 24, CCUHP).**




**Y Broblem:** Mae canran uchel o ddisgyblion yng Nghymru eisoes yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (FSM). Mae'r pandemig presennol a'r problemau economaidd a ddaw yn sgîl hynny yn golygu bod y niferoedd hynny'n debygol o gynyddu.

Bydd colli swyddi a busnesau, pobl ar ffyrlo yn cael llai o gyflog a mwy o bobl yn cael credyd cynhwysol yn golygu y bydd mwy o deuluoedd yn dod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim am y tro cyntaf. Bydd angen cymorth ychwanegol hefyd ar bobl sydd heb fod yn gymwys, ond sy'n wynebu ansicrwydd bwyd o ganlyniad i golledion ariannol a bydd mwy o bobl yn defnyddio banciau bwyd, fel sydd eisoes yn digwydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau cyllid ac arweiniad i Awdurdodau Lleol ar gyfer darparu prydau ysgol am ddim hyd nes y bydd ysgolion yn ailagor neu tan ddiwedd Awst o leiaf.

## Camau y gallwch chi eu cymryd i helpu teuluoedd yn eich ysgol

- Gofalu bod pob rhiant/gofalwr yn gwybod am y rhaglen prydau ysgol am ddim ac yn parhau i 'w defnyddio yn y cyfnod hwn.
- Cefnogi rhieni/gofalwyr â gwybodaeth am sut mae gwneud cais am brydau ysgol am ddim.
- Annog rhieni/gofalwyr i fynd at eu Hawdurdod Lleol i ofyn am wybodaeth.
- Nodi/targedu disgyblion newydd a allai fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim nawr am y tro cyntaf. Mae annog y rhain i hawlio yn allweddol.
- Darparu gwybodaeth am fanciau bwyd lleol a sut mae cael mynediad iddynt.
- Tynnu sylw rhieni/gofalwyr at y Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) a'r Taliad Cymorth Brys (EAP) yn arbennig, i'r rheiny sy'n wynebu caledi ariannol neu oedi o ran taliadau budd-dal.
- Gall rhieni neu ofalwyr ddefnyddio grant mynediad y Grant Datblygu Disgyblion i helpu gyda chostau sy'n gysylltiedig â'r diwrnod ysgol, a allai leihau pwysau ar eu cyllid pob dydd.

### Dolenni Defnyddiol

**Canllawiau prydau ysgol am ddim:** https://llyw.cymru/prydau-ysgol-am-ddim-canllawiau-coronafirws-i-ysgolion

**Canllawiau prydau ysgol am ddim fesul Awdurdod Lleol:** https://llyw.cymru/darganfod-mwy-am-brydau-ysgol-am-ddim-yn-eich-awdurdod-lleol-coronafeirws Mae hwn yn caniatáu i rieni/ofalwyr wirio sut mae parhau i dderbyn prydau ysgol am ddim trwy chwilio am eu côd post neu'r Awdurdod Lleol.

**Banc bwyd:** https://www.trusselltrust.org/get-help/find-a-foodbank Elusen genedlaethol sy'n helpu i ddarparu bwyd i deuluoedd pan fyddan nhw'n methu fforddio bwyd – teipiwch eich côd post i weld ble mae'r cymorth agosaf

**Grant Datblygu Disgyblion:** https://llyw.cymru/grant-datblygu-disgyblion-mynediad Os ydych chi ar incwm isel, gallai eich plentyn fod yn gymwys i gael y grant hwn

**Cronfa Cymorth Dewisol** https://llyw.cymru/cronfa-cymorth-dewisol-daf/sut-i-wneud-cais
(Taliad Cymorth Mewn Argyfwng) yn ystod COVID 19: Rhwng 1 Mai a 31 Gorffennaf 2020, bydd ceisiadau'n cael eu trin â mwy o hyblygrwydd a

## Adnoddau ac Offer – Cymorth i ddisgyblion barhau i ddysgu gartref



**Y Broblem:** O ran tegwch a phontio’r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion bu rhwystrau i ddysgu oherwydd diffyg mynediad at adnoddau ac offer y tu allan i’r ystafell ddosbarth yn broblem erioed.

Er gwaetha’r gwaith caled sy’n digwydd i sicrhau addysg effeithiol yn y cartref a dysgu o bell, mae’r angen am greu dull gweithredu tecach yn fwy allweddol yn awr nag erioed.

Oes gan ddisgyblion fynediad at ddyfeisiau digidol? Pa adnoddau/offer sydd gan ddisgyblion yn y cartref i wneud tasgau ar gyfer dysgu ac, yn bwysig, ar gyfer llesiant?



### Camau y gallwch chi eu cymryd i helpu teuluoedd yn eich ysgol

- Ystyried rhentu neu roi benthyg offer TG i deuluoedd a dargedir / deuluoedd y nodwyd eu bod heb fynediad.
- Cynnal arolwg/archwiliad i nodi beth sydd gan ddisgyblion.
- Oes modd i eitemau a ddefnyddir/brynwyd ar gyfer yr ysgol gael eu dosbarthu ochr yn ochr â phrydau ysgol am ddim?
- Ystyried pa adnoddau ac eitemau sy’n ofynnol wrth osod gwaith.
- Llunio pecynnau adnoddau/offer – gallai’r rhain gynnwys eitemau y mae eu hangen i gwblhau tasgau, fel – siswrn, glud, tâp gludiog, pensiliau, papur, cyfrifiannell, llyfrau (priodol i’r oed darllen).
- Tynnu sylw rhieni/gofalwyr at y Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) a’r Taliad Cymorth Brys (EAP) yn arbennig, i’r rheiny sy’n wynebu caledi ariannol neu oedi o ran taliadau budd-dal.

### Dolenni Defnyddiol

**Grant Datblygu Disgyblion:** https://llyw.cymru/grant-datblygu-disgyblion-mynediad Os ydych chi ar incwm isel, gallai eich plentyn fod yn gymwys i gael y grant hwn

**Cronfa Cymorth Dewisol** https://llyw.cymru/cronfa-cymorth-dewisol-daf/sut-i-wneud-cais (Taliad Cymorth Mewn Argyfwng) yn ystod COVID 19: Rhwng 1 Mai a 31 Gorffennaf 2020, bydd ceisiadau’n cael eu trin â mwy o hyblygrwydd a disgresiwn.

**Yr Undeb Addysg Cenedlaethol:** https://neu.org.uk/coronavirus-what-you-need-know-supporting-students-without-digital-access ‘Dogfen ‘gwybodaeth angenrheidiol’ sy’n cynnig canllawiau ymarferol ar helpu plant o deuluoedd incwm isel gyda’u dysgu

**Yr Undeb Addysg Cenedlaethol:** https://neu.org.uk/advice/create-box Cyngor ar greu blychau adnoddau sy’n cynnwys defnyddiau dysgu ymarferol a chreadigol ar gyfer teuluoedd ar incwm isel

# PRIS TLODI DISGYBLION



## Ymgysylltiad Rhieni - Cadw mewn cysylltiad a chyfathrebu effeithiol



**Y Broblem:** Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y berthynas rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod plant rhieni sy'n ymgysylltu'n gadarnhaol â bywyd yr ysgol yn fwy tebygol o gyflawni deilliannau addysgol gwell.

Mae'n fwy hanfodol nawr nag erioed fod cyfathrebu agored ac ymgysylltiad yn dal i ddigwydd. Mae dysgu o bell yn realiti ac mae rhieni wrthi'n darparu ysgol gartref, felly mae'n hanfodol cael hyd i ffordd o sicrhau bod ymgysylltiad effeithiol yn digwydd a bod ysgolion yn parhau i estyn allan, hyd yn oed pan na ddaw ymateb.

Po fwyaf yw ymgysylltiad rhieni, mwyaf tebygol yw y gallant helpu eu plant a gofyn am gymorth a chefnogaeth ar bob mater yn y cyfnod hwn sydd mor anodd.

### Camau y gallwch chi eu cymryd i helpu teuluoedd yn eich ysgol

- Dylai cyfathrebu fod yn broses ddwy ffordd. Ymgynghorwch â'r rhieni ynghylch yr hyn sydd ei angen arnyn nhw neu beth fyddai'n gweithio orau yn y cyfnod yma
- Gofalu ymgysylltu'n gadarnhaol â rhieni – galwadau ffôn wythnosol, sesiwn agored unwaith yr wythnos – pan fydd rhieni'n cael cysylltu â chi i sgwrsio am waith ysgol.
- Gofalu bod amrywiaeth o ddulliau ar waith ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth.
- Cynnig cyfleoedd i'r rhieni eu hunain ddysgu (fedrwch chi eu cefnogi nhw i gefnogi eu plant?)
- All Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol gynnig cymorth yn y cyfnod hwn? Oes yna rieni fyddai am roi o'u hamser ac sydd â sgiliau penodol a allai fod yn ddefnyddiol yn y cyfnod hwn?
- Ystyriwch sefydlu cyngor neu hwb rhieni er mwyn cyfathrebu gyda grŵp bach o rieni i ledaenu gwybodaeth.

### Dolenni Defnyddiol

**Consortiwm Canolbarth y De (CSC) - Dysgu o Bell, Ystyriaethau ar gyfer Ysgolion:** https://www.cscjes-cronfa.co.uk/repository/resource/79b366e5-d0cc-4ce1-8a10-4566eb78c5c5/en Arweiniad i ysgolion ar strategaethau dysgu o bell

**Cadw'n Ddiogel. Dal ati i ddysgu:** https://www.cscjes-cronfa.co.uk/repository/resource/79b366e5-d0cc-4ce1-8a10-4566eb78c5c5/en Ar gyfer llesiant staff a myfyrwyr ledled y wlad wrth gefnogi dysgwyr i ddysgu o bell

**Education Endowment Foundation:** https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/Publications/Covid-19_Resources/Resources_for_schools/Communicating_Effectively_with_Families_-_Guide_for_Schools.pdf Adnoddau a luniwyd i'w defnyddio gan ysgolion a rhieni/

**ParentKind –Dod â'r cartref a'r ysgol ynghyd:** https://www.parentkind.org.uk/ Adnoddau a chyngor ar gyfer Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon a sefydlu cynghorau rhieni